# Snapchat!

1. Dadansoddi Deialog:


    1. **A yw'r ddwy yn ffrindiau da fel arfer?**
    Mae'n debygol oherwydd y ffordd mae Leah yn eithaf agored wrth awgrymu galw i weld Betsan. Nid yw'n swnio fel rhywbeth anarefrol.
    2. **Sut mae Leah yn gallu gweld fod Betsan yn ei hystafell wely?**
    Gan ei bod hi ar Snapchat, mae'n debygol ei bod hi'n defnyddio Snap Maps.
    3. **Edrychwch ar neges rhif 4. Ydych chi'n cael yr argraff nad yw Betsan eisiau siarad llawer â Leah? Os felly, pam?**
    Nid yw Betsan yn rhoi ateb hir nac yn dweud ble mae hi'n mynd. Mae'n amlwg nad yw hi am i'r sgwrs barhau wrth ddweud y bydda hi'n tecstio fory. Efallai nad ydi hi eisiau dweud i ble mae hi'n mynd.
    4. **Ydi Leah yn defnyddio Snapchat yn aml gyda'r nos? Sawl cyfeiriad at Snapchat sydd yn y sgwrs?**
    Ydi, mae hi'n sôn amdano 4 gwaith.
    5. **Wrth edrych ar negeseuon 6 a 7, beth mae Leah yn ei weld ar Snap Maps?**
    Mae hi'n gweld fod llawer o'i blwyddyn hi yn yr un lle. Mae hi'n sylwi nad yw Betsan ar y map, ac amau ei bod hi ar *Ghost Mode*. Er ei bod ar *Ghost Mode* mae 'our story' dal yn weladwy. Mae Leah yn gweld ei bod hi a dau ffrind arall yn y parti.
    6. **Pam nad yw Betsan yn ateb?**
    Efallai ei bod yn teimlo'n euog ei bod hi yn y parti a leah ddim. Efallai nad yw hi'n siwr beth i'w ddweud.


7. **Os yw Betsan ar *Ghost Mode*, pam?**
   Dydy hi ddim eisiau i Leah weld ble mae hi.


8. **Trafodwch ymateb Leah i neges rhif 8. Wnaeth hi ymateb yn syth? Pam ddim? Sut ydych chi'n meddwl y mae Leah yn teimlo erbyn y pwynt yma?**
   Nid yw Leah yn ymateb am o leia awr a hanner. Efallai bod neges rhif 8 wedi brifo'i theimladau. Mae'n siwr fod Leah yn teimlo'n unig ac yn drist erbyn hyn.

9. **Nid yw'n bosib gwybod yn iawn, ond meddyliwch beth all y rheswm fod nad yw Leah wedi mynd i'r ysgol dydd Llun.**
   Teimlo cywilydd fod pawb ond hi wedi bod yn y parti o bosib. Ddim eisiau gweld neb. Ddim eisiau gwynebu siarad â Betsan, efallai?

2. Iaith


17:07
48%
Messages
Betsan
Details
Haia! Wyt ti'n iawn? Beth wyt ti'n ei wneud heno? Mae mam yn mynd i'r dref. Dw i'n meddwl mynd efo hi a dod i dy dŷ di?
Haia! O, mae'n ddrwg gen i, dydw i ddim adref heno. Beth am nos yfory?
I ble wyt ti'n mynd heno? Dw i wedi anfon Snapchat atat ti. Dw i'n gallu gweld dy fod di yn dy ystafell wely di.
Dw i'n mynd mas. Wna i dy decstio di yfory.
Wyt ti allan? Dw i wedi anfon Snapchats atat ti o Huw yn trio rhoi Hula Hoops i fyny ei drwyn! Ha ha ha! Idiot! Ble wyt ti?
iMessage
Send


21:17
25%
Messages
Betsan
Details
Dydd Gwener, Mehefin 23, 21:10
Wyt ti ar Ghost Mode? Mae yna lwyth o'n blwyddyn ni yn nhŷ Ella James. Wyt ti yno?
Rydw i newydd weld Our Story ti. Mae'n edrych fel parti da. Doeddwn i ddim yn gwybod dy fod di, Wills a Tegan yn mynd. Pam wnest ti ddim sôn?
Haia. Mae'n ddrwg gen i, nes i ddim weld dy neges destun di. Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddet ti wedi cael gwahoddiad. Wna i dy decstio di yfory.
Dw i'n mynd efo mam i siopa yfory. Dw i angen bikini newydd. Rydyn ni'n mynd i Sbaen yn yr haf. Does dim pwynt i ti decstio yfory. Wna i dy weld di yn yr ysgol ddydd Llun.
iMessage
Send


15:41
67%
Messages
Betsan
Details
Rydw i newydd weld Our Story ti. Mae'n edrych fel parti da. Doeddwn i ddim yn gwybod dy fod di, Wills a Tegan yn mynd. Pam wnest ti ddim sôn?
Haia. Mae'n ddrwg gen i, nes i ddim weld dy neges destun di. Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddet ti wedi cael gwahoddiad. Wna i dy decstio di yfory.
Dw i'n mynd efo mam i siopa yfory. Dw i angen bikini newydd. Rydyn ni'n mynd i Sbaen yn yr haf. Does dim pwynt i ti decstio yfory. Wna i dy weld di yn yr ysgol ddydd Llun.
Dydd Llun, Mehefin 26, 15:41
Haia ! Wyt ti'n iawn? Pam nad oeddet ti yn yr ysgol heddiw? Ges di benwythnos neis?
iMessage
Send